

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Fawrth,
26 Tachwedd 2019 yn Canolfan y Fron

Minutes of the Finance Committee Meeting held Tuesday, 26 November
2019 at 7.00pm at Canolfan y Fron,

Yn bresennol / Present

Cynghorwyr/ Councillors Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ; David C Davies; Bryn Williams;
Eddie Willcox; Hywel J Owen ; David Roberts Rheolwr/Manager.

1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome

Croesawyd pawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan Gadeirydd y Pwyllgor, Cyng. David C Davies.

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Gerwyn Owen. Cyng. Clive Bayley

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Cyng. Alun Wyn Jones a Cyng. David C Davies - eitem 8. Y ddau yn aelodau o Bwyllgor Neuadd Y Groeslon ond ddim yn fuddiant yn rhagfarnu. Cymerodd y ddau aelod rhan yn y drafodaeth.

4 Cyllideb 2020-21 – 2020-21 Budget

Dosbarthwyd copi o'r gyllideb ddiweddaraf ynghyd ac adroddiad y Rheolwr i bob aelod

Nodwyd y canlynol -

Sefydlwyd cyllideb 2019-20 fel a ganlyn –

Gwariant Gross £59,850

Llai Incwm Ffioedd a Grant (£4,850)

Llai Defnydd o Balansau (dim)

Gwariant Net £55,000 y galw ar y trethdalwr- sef y "praesept"

Bu i'r praesept gynyddu £7,000 yn 2018-19 ar gyfer ymrwymadau parhaol yn benodol ar y materion canlynol

- cost ychwanegol cytundeb Cynnal Tiroedd,
- darpariaeth barhaol ar gyfer partneriaeth Toiled y Marine

Bu i'r praesept gynyddu £7,000 pellach yn 2019-20 ar gyfer ymrwymadau parhaol yn benodol ar y materion canlyno

- cost cyflogaeth
- cost pensiwn,
- lwfansau aelodau
- chwyddiant

Addasiadau Parhaol i'r Gyllideb Sylfaenol

Gellir gostwng y gyllideb sylfaenol (£380) net ar amrywiol benawdau ond y ddau brif bennawd yw -

- **Pensiwn y Rheolwr (£1,340)** - cyfraniad y Cyngor tuag at bensiwn yr athrawon i NEST yw 10% o'r cyflog nid 22.4% fel rhoddyd yn y gyllideb 2019-20
- **Lwfansau Aelodau £1,200** - £900 sydd yn y gyllideb ar sail 6 aelod yn hawlio £150. Awgrymir y dylid ychwanegu £1,200 i'r gyllideb ar sail 14 aelod yn hawlio'r lwfans
- **Addasiadau amrywiol eraill (£240)**

Datblygiadau o 2019-20

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo £1,500 o balansau eleni i ariannu prynu'r gwasanaeth biniau halen gan Gyngor Gwynedd. Rhaid cynyddu'r gyllideb yn 2020-21 £1,500 (ymrwymiad un tro) i gadw'r balansau ar y swm sefydlog o £5,000 ynghyd a £1,500 (parhaol) pellach ar gyfer prynu'r gwasanaeth at Gaeaf 2020/21.

Chwyddiant 2020-21

Rhagwelir fod chwyddiant ar gyfer 2020-21 yn £600 ar sail 1.5% CPI ar fwyaf y pennawdau, 2.75% ar gost cyflogaeth a 5% ar gytundeb Un Llais Cymru. Nid oes chwyddiant wedi ei ychwanegu ar gytundebau sefydlog megis cynnal tiroedd.

Addasiadau Amrywiol 2020-21

Penderfyniad y Cyngor oedd cynyddu ffioedd claddu ar rhai penawdau 12% yn 2020-21 i adlewyrchu'r ffaith fod y ffioedd claddu yn cynnwys ffi gosod carreg fedd. Rhagwelir cynnydd felly yn yr incwm o (£500)

Rhagwelir fod sgôp i leihau'r gyllideb (£390) pellach ar amrywiol benawdau

Datblygiadau 2020-21

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wariant yn 2020-21 nad oes cyllideb ar eu cyfer yn benodol -

- **adroddiad blynyddol - amcan gost £500**
- **cytundeb biniau halen - amcan gost £1,500**
- **cyfraniad at gynnal cae pêl-droed Y Groeslon - £1,000**
- **blaenoriaeth gwariant y Cyngor – llwybrau mynwentydd - £1,370**
- **blaenoriaeth gwariant y Cyngor – lloches bws Dinas Dinlle - £5,000**
- **agor mynwent newydd Bryn'rodyn - £1,000**
- **cytundeb cynnal gwefan newydd net cynnydd o £290**
- **cynnydd cost gweinyddiaeth £950**
- **Cyfanswm £11,610**

Gweinyddiaeth

Mae'r Gweithgor Ymgysylltu wedi nodi fod yna ddisgwyl cynnydd yn costau gweinyddiaeth y Cyngor yn 2020-21 o ganlyniad i ddarparu adroddiad blynyddol a "social media". Byddai cynyddu'r oriau Rheolwr o un awr yr wythnos (o 600 awr y flwyddyn i 650) y mis yn gost ychwanegol o **£950** mewn blwyddyn, £750 am y cyflog, £100 yswiriant cenedlaethol y cyflogwr a £75 am y pensiwn y cyflogwr.

Cyllideb 2019-20 a Balansau

Rhagolygon diweddaraf yn dangos and oes disgwyl tanwariant eleni. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'r tan wariannau ar gyfer gwaith ar loches bws Gardd Y Coleg, Carmel a datblygu'r gwefan

Disgwylir y balansau ganlynol at 31 Mawrth 2020

- Cronfa Arian Wrth Gefn £3,500
- Cronfa Caeau Chwarae £2,000
- Cyfanswm £5,500

Noder fod targed ffioedd claddu eleni yn £4,030 gyda'r incwm gwirioneddol hyd yma yn £3,016. Mae angen £1,014 yn y cyfnod Tachwedd 2019 i Fawrth 2020 i gyrraedd y targed. Mae'n bosib y gall yr incwm fod £1,000 neu £2,000 uwchlaw y targed erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cyllideb Derfynol 2020-21

I gwrdd â datblygiadau/pwysau yn 2020-21, chwyddiant, a blaenoriaeth gwariant y Cyngor bydd rhaid i'r Cyngor ystyried y gyllideb ganlynol yn 2020-21. -

	Cyllideb 2019-20	Cyllideb 2020-21	Gwahaniaeth £	Gwahaniaeth %
Gwariant	£59,850	£72,880	£13,030	21.77%
Incwm	(£4,850)	(£5,440)	(£590)	12.16%
Net	£55,000	£67,440	£12,440	22.62%

Rhaid ystyried felly cynyddu'r gyllideb yn 2020-21 **£12,440** neu **22.62% yn erbyn cyllideb 2019-20**. Byddai'r cynnydd yn golygu cost flynyddol ar eiddo Band C o £58.25 yn 2020-21 y flwyddyn Mae £1,000 o gynnydd yn y praesept yn golygu cynnydd o 86 ceiniog y flwyddyn ar eiddo Band C

Sylwadau Aelodau

EW - holi am **gyfraniad i Ysgol Bro Llifon** am gynnal y cae chwarae gan mai ond plant oed cynradd sydd yn cael ei ddefnyddio. Eglurodd AWJ na fydd y swm o £1,000 sydd wedi ei gynnwys yn y gyllideb yn arian fydd yn trosglwyddo i'r ysgol yn flynyddol ond yn arian fydd yn cael ei glustnodi mewn cronfa a bydd rhaid i'r ysgol gyfiawnhau unrhyw wariant i'r Cyngor cyn rhyddhau arian.

GOJ - yn awgrymu y dylid dangos y cyfraniad ar bennawd Cytundebau Cynnal Caeau Chwarae a'i warchod mewn cronfa, fel y gwneir i'r gyllideb caeau pêl-droed Carmel a Fron

HJO - mater i'r Cyngor yw penderfynu pa **ddatblygiadau** sydd yn cyrraedd at gyfanswm o £11,610 sydd i'w cynnwys yn y gyllideb.

Fynwent Brynrodyn - adroddwyd fod y Rheolwr wedi gwneud archwiliad o safleoedd claddu yn y fynwent gyda Rhys a Twm o Gwmni Roberts ac Owen yn ddiweddar. Mae yna un safle claddu yn y gwaelod, un yn y canol a 8 yn y top ger y cwt. Bydd rhaid cael amserlen mewn lle a trefniadau cadarn i agor y fynwent newydd yn ystod 2020-21. Clustnodir swm o £1,000 i'r gyllideb ar gyfer biniau sbwriel, marcio safleoedd parcio a safleoedd claddu, hysbysfwrdd ac ati.

Gweinyddiaeth - i adlewyrchu cynnydd yng ngweinyddiaeth y Cyngor o 2020-21. Mae swm o £950 wedi ei gynnwys ar y pennaed gweinyddiaeth ar sail cynnydd o un awr yr wythnos, (50 awr y flwyddyn o 600 awri 650awr). Mae'r swm yn cynnwys cost yswiriant gwladol a pensiwn y Cyngor.

Lloches Dinas Dinlle – EW - gwneud y sylwad y gellir ystyried gosod lloches ratach ger y glaswellt o flaen y cae chwarae. Angen agor y ddeialog gyda Cyngor Gwynedd i gynnwys lloches yn y cynllun.

HJO - yn cynnig fod y pwyllgor hwn yn derbyn cywirdeb y ffigyrau yn y gyllideb fel y'i cyflwynwyd. Yn ofni and yw y chwyddiant CPI o 1.5% yn ddiagonol. Nodwyd ganddo fod yr holl addasiadau yn gost niwtral felly'r unig gynnydd yw cost y datblygiadau. Ar sail hynny yn argymhell fod rhaid i'r Cyngor benderfynu ar y datblygiadau sydd angen eu cynnwys a gosod y gyllideb ar y dewis hynny.

Argymhelliad unfrydol i'r Cyngor -

- i) *Fod y Cyngor yn derbyn fod y Pwyllgor Cyllid wedi archwilio cynnwys y gyllideb ac yn fodlon gyda'r ffigyrau fel y'i cyflwynwyd***
- ii) *Fod y Cyngor yn penderfynu ar y datblygiadau hynny a nodir isod sydd angen eu cynnwys yng nghyllideb 2020-21 ac yn derbyn bydd y praesept yn cynyddu 22.6% os bydd y Cyngor yn cynnwys yr holl o'r datblygiadau sef -***
 - *adroddiad blynyddol - amcan gost £500***
 - *cytundeb biniau halen - amcan gost £1,500***
 - *cyfraniad at gynnal cae pêl-droed Y Groeslon - £1,000***

- *blaenoriaeth gwariant y Cyngor – llwybrau mynwentydd - £1,370*
- *blaenoriaeth gwariant y Cyngor – lloches bws Dinas Dinlle - £5,000*
- *agor mynwent newydd Bryn’rodyn - £1,000*
- *cytundeb cynnal gwefan newydd net cynnydd o £290*
- *cynnydd cost gweinyddiaeth £950*

Recommendation to Council -

- i) *That the Council accepts that the Finance Committee has scrutinized the budget as presented and is content with the figures.*
- ii) *That the Council decides on those developments noted below that need to be included in the 2020-21 budget and accepts that the precept will increase by 22.6% if the Council includes all of the developments, namely*
 - *annual report – estimated cost £500*
 - *salt bin service - estimated cost £1,500*
 - *contribution towards the up-keep of Groeslon football pitch - £1,000*
 - *Councils Spending Priority – cemetery footpaths - £1,370*
 - *Councils Spending Priority – Dinas Dinlle bus shelter - £5,000*
 - *opening of Bryn’rodyn new cemetery - £1,000*
 - *year 2 costs od new website - £290*
 - *increase in administration costs- £950*

5 Grŵp Diffribiliwr Pentref Y Groeslon – Cais Arbennig / Groeslon Defibrillator Group – Special Request

Fe wnaeth AWJ a DCD ddatgan buddiant ar yr eitem hon fel aelodau o Bwyllgor Neuadd Y Groeslon, Arhosodd y ddau am yr eitem i egluro'r sefyllfa i'r aelodau.

Atgoffwyd yr aelodau fod y Cyngor wedi cyfeirio'r mater hwn i'r Pwyllgor Cyllid ei ystyried yn dilyn arweiniad gan Un Llais Cymru a Paul Claydon.

Nid oes unrhyw rwystrau cyfreithiol i'r Cyngor hwn dderbyn yr arian. Mae'r Ddeddf Llesiant hefyd yn rhoi'r grym i'r Cyngor cymryd cyfrifoldeb am y peiriannau os mai dyna yw dymuniad y Cyngor.

Yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 4 Hydref 2019 rhoddwyd dau ddewis i weithredu yn benodol -

1) i'r Cyngor Cymuned dderbyn yr arian a threfnu taliadau (derbyn a thalu) neu

2) i'r Cyngor Cymuned dderbyn yr arian a throsglwyddo arian nol i'r Neuadd yn unol â'r gofyn (derbyn a throsglwyddo)

Adroddwyd gan AWJ a DCD -

- Sefydlwyd Grŵp Diffribiliwr Pentref Y Groeslon i gasglu arian i gael tri diffribilwir yn y pentref. Lleolwyd un yn Dolydd, un ar y Neuadd ac un ar dir yr ysgol.
- Wrth sefydlu'r Grŵp ni agorwyd cyfrif banc ond penderfynwyd defnyddio banc y Neuadd Pentref i gadw'r incwm ac i wneud y taliadau.
- Agorwyd cyfrif banc ar wahân i fusnes arferol y Neuadd.
- Mae yna falans o £1,548 yn y cyfrif.
- Mae'r balans ar gyfer cynnal y peiriannau a phrynu batris ac ati. Tua £20 yw cost y batris
- Mae un uned yn costio £800 a chabinet £354

Perchnogaeth

Os ydi'r Cyngor yn dewis opsiwn 1, sef yn gwneud y taliad, byddai hynny yn golygu mai'r cyngor fydd perchen unrhyw offer a brynir - ac felly byddai cyfrifoldeb am y peiriannau yn disgyn ar y Cyngor. HJO o'r farn rhaid trio angen cadw'r mater yn syml ond yn anghyffyrddus i ddewis opsiwn 2 gan na fyddai gan y Cyngor, fel corff statudol, sicrwydd fod unrhyw daliad yn cael ei wneud i gyflenwyr yn cynnig gwerth am arian ac yn wariant cymwys.

Gofynnodd GOJ **pwysydd yn gyfrifol am y peiriannau heddiw?**

DCD – nid oes un person penodol yn gyfrifol am yr unedau ond mae Emyr yn **gofalu** am uned yn y Dolydd, Pennaeth yr Ysgol am yr Uned sydd ar dir yr ysgol ac Alun am yr uned sydd ar dir y Neuadd.

Cyfrif Banc – trafodwyd y syniad o agor cyfrif banc newydd i warchod yr arian. Rheolwr yn erbyn y syniad o agor cyfrif banc newydd oherwydd fe all pentrefi eraill y gymuned ofyn i'r Cyngor gymeryd cyfrifoldeb tebyg i'r dyfodol. Gellir gwarchod yr arian a thracio symudiadau oddi fewn y cyfrif incwm a gwariant a'i gadw ar wahân mewn unrhyw adroddiad cyllidol.

HJO yn awgrymu gohirio'r mater am y tro ac i'r Pwyllgor hwn drafod y mater eto ym mis Mawrth 2020 cyn argymhell i'r Cyngor i dderbyn yr arian gan y Neuadd erbyn cychwyn y flwyddyn ariannol newydd ar 1 Ebrill 2020.

DCD yn cynnig awgrym HJO, eiliwyd gan AWJ

Argymhelliad i'r Cyngor - fod y Cyngor yn nodi'r drafodaeth ond yn oedi rhag gwneud penderfyniad terfynol hyd nes bydd y Pwyllgor hwn yn trafod y mater ymhellach yn ystod Mawrth 2020 a cheisio cytuno ar y drefn ar sut i weithredu yn barod i dderbyn yr arian erbyn cychwyn y flwyddyn gyllidol 2020-21.

Recommendation to Council - that the Council notes the discussion but defers making a final decision until this Committee considers the matter further during March 2020 and seeks to agree on the procedure in preparation to receiving the money by the start of the 2020-21 financial year.

6 Asesiad Risg o Drefniadau Gwaith y Cyngor / Risk Assessment of Council Procedures

Dosbarthwyd copi o Asesiad Risg Trefniadau Gwaith y Cyngor Blynyddol gan y Rheolwr. Eglurwyd mai man cychwyn yn unig ydoedd a bod angen i'r Pwyllgor fynd trwy'r penawdau lein wrth lein.

Sylwadau Aelodau –

yn diolch i'r Rheolwr am y gwaith. Yn cynnig gohirio argymhell i'r Cyngor ei fabwysiadu hyd nes y bydd aelodau'r pwyllgor hwn wedi cael y cyfle i graffu'r cynnwys

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) *Fod y Cyngor yn derbyn fod angen craffu'r wybodaeth cyn argymhell i'r Cyngor ei gymeradwyo fel Asesiad Risg o Drefniadau Gwaith y Cyngor am 2019/20***
- ii) *Fod y Cyngor yn derbyn fod y ddogfen angen ei adolygu yn flynyddol ac felly angen ei gymeradwyo yn flynyddol gan y Cyngor.***

Recommendation to Council -

- i) *That the Council accepts that the information needs to be scrutinized before recommending it to the Council for approval as a Risk Assessment of the Council's Working Arrangements for 2019/20***
- ii) *That the Council accepts that the assessment needs to be reviewed annually and therefore needs to be approved annually by the Council.***

7 Talu Credydwr Syth o'r Banc / Direct To Bank Creditor Payments

Dosbarthwyd copi o Bolisi Talu ar Lein i bob aelod gan y Rheolwr. Eglurwyd mai man cychwyn yn unig ydoedd.

Sylwadau Aelodau –

yn diolch i'r Rheolwr am y gwaith. DCD wedi cysylltu gyda'r ban ac yn cadarnhau fod gan y Cyngor y cyfleuster i dalu credydwr ar lein.

GOJ - angen sicrwydd fod y cyfrif banc yn gywir cyn prosesu unrhyw drosglwyddiad banc. Yn awgrymu y dylid cynnwys rhif y cyfrif banc a côd sortio ar y scediwl talu ar gyfer pob taliad, ynghyd a chopïau o'r anfonebau ar gyfer pob cyfarfod o'r Cyngor llawn.

DCD – yn awgrymu, ar gyfer pob taliad i gredydwr newydd, y dylid talu swm cychwynnol o £1 gan ofyn i'r credydwyr gadarnhau fod y £1 wedi cyrraedd eu cyfrif banc cyn talu'r gweddill.

GOJ – bydd angen adolygu y Rheolau Ariannol i ymgorffori y polisi hwn ynddo.

Argymhelliad unfrydol y Pwyllgor –

Fod y Cyngor yn mabwysiadu'r polisi yn ei gyfarfod 16 Rhagfyr 2019 wedi i'r rheolwr gynnwys y gwelliannau canlynol -

- **Fod y scediwl a'i gyflwynir i'r Cyngor yn y cyfarfodydd misol yn cynnwys rhif y cyfrif banc a côd sortio y credydwr ynghyd a darparu copïau o'r anfonebau.**
- **ar gyfer pob taliad i gredydwr newydd, y dylid talu swm cychwynnol o £1 gan ofyn i'r credydwyr gadarnhau fod y £1 wedi cyrraedd eu cyfrif banc cyn i'r Rheolwr dalu'r balans.**

Recommendation to the Council -

That the Council adopts the policy at its meeting on 16 December 2019 after the manager has included the following amendments-

- **That the schedule presented to the Council at the monthly meetings includes the creditors sort code & bank account number together with copies of the invoices.**
- **for all payments to new creditors, an initial payment of £1 should be made and the creditor asked to confirm that the £1 had reached their bank account before the Finance Manager pays off the balance.**

Daeth y cyfarfod i ben am 8:20 yr hwyr

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor

Dyddiad -